All Wales Child Protection Procedures Review Group

Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sydd mewn perygl neu sy'n profi niwed trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Protocol Cymru Gyfan

TERFYNOL	Gorffennaf 2015
Gweithredu	Rhagfyr 2015
Adolygu	

5.5.1 Cyflwyniad

Bwriad y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ym maes amddiffyn plant a phobl ifanc a all fod mewn perygl neu'n profi cam-drin trwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Nid canllawiau yw'r rhain i gynghori ar E-ddiogelwch i blant neu bobl ifanc, gofalwyr, rhieni na gweithwyr proffesiynol (gweler 5.5.7 isod am adnoddau defnyddiol yn y maes hwnnw) na chwaith ganllawiau i dywys ymddygiad proffesiynol wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, gan mai mater i'r sefydliad sy'n cyflogi a/neu godau ymddygiad proffesiynol yw hwnnw.

5.5.2 Diffiniad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

At ddibenion y canllawiau hyn mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cyfeirio at bob math o gyfathrebu cymdeithasol sy'n digwydd trwy gyfrwng cyfarpar electronig. Mae cyfarpar o'r fath ar hyn o bryd yn cynnwys ffonau symudol, cyfrifiaduron, consolau gêmau a chyfrifiaduron tabled, ond gall mathau eraill o gyfarpar ddatblygu yn y dyfodol. Oherwydd bod ffurfiau'r math hwn o dechnoleg a'r dulliau o gyfathrebu sy'n cael eu galluogi ganddi yn datblygu, defnyddir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu TGCh yn gategori 'trosfwaol' er hwylustod.

5.5.3 Mathau a Risgiau Penodol o Gam-drin Plant trwy TGCh

Y prif fathau o Gam-drin Plant trwy TGCh

At ddibenion y canllawiau hyn, tynnwyd y prif fathau o gam-drin plant trwy TGCh; **Cynnwys, Cyswllt** ac **Ymddygiad**; o Adolygiad Byron (2010) a'r ddogfen 'Advice on Child Internet Safety' 1.0 (2013).

- **Cynnwys**: Mae hyn yn cyfeirio at niwed trwy ddod i gysylltiad â delweddau, testun a sain sy'n amhriodol, yn dramgwyddus neu'n anghyfreithlon. Enghreifftiau o hyn yw pornograffi oedolion, delweddau eithafol dreisgar a sadistaidd, a delweddau o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Enghraifft o achos yw Ymwelydd Iechyd yn sylwi bod delweddau pornograffig ar gyfrifiadur teuluol y gall plant ifanc ar yr aelwyd ei weld.

- **Cyswllt**: Mae hyn yn cyfeirio at niwed trwy ryngweithio ag eraill. Enghreifftiau o hyn yw paratoi ar-lein ar gyfer cam-drin a chamfanteisio rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol i greu delweddau ar gyfer hunan-foddhad neu i'w rhannu ag eraill: ac oedolion agored i niwed sydd â phlant yn cael eu targedu ar wefannau canfod partner gan oedolion sy'n cam-drin, er mwyn dod i gysylltiad â'u plant. Gall hefyd gynnwys cyswllt 'cyfrinachol' rhwng plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac aelodau o'r teulu neu eraill, lle mae gweithwyr proffesiynol wedi atal y cyswllt hwnnw er mwyn amddiffyn y plentyn rhag niwed.

- **Ymddygiad**: Mae hyn yn cyfeirio at niwed sy'n deillio o sut mae plant a phobl ifanc yn ymddwyn wrth gyfathrebu ymhlith ei gilydd neu ag oedolion wrth ddefnyddio TGCh. Enghreifftiau o hyn yw 'seiber' fwlio a 'seiber' lercian, fel pobl ifanc yn dweud wrth eu gweithiwr cymdeithasol eu bod nhw'n cael eu bygwth trwy negesuon testun i'w ffôn a sylwadau sarhaus ar Facebook. Enghraifft bellach yw plant a phobl ifanc yn cyfnewid delweddau a negeseuon rhywiol ('secstio').

Risgiau Penodol

- **Hunaniaeth Rithiol**

Mae gan unigolion fwy o reolaeth ar sut maen nhw'n cyflwyno eu hunain i eraill a mwy o gyfle i greu hunaniaeth newydd er mwyn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u gofalwyr a'r rhieni. Er enghraifft, gall oedolion esgus bod yn blant neu'n bobl ifanc fel strategaeth baratoi trwy gyfryngau cymdeithasol fel 'ystafelloedd sgwrsio'. Gall oedolion hefyd gychwyn perthynas newydd heb fawr ddim gwybodaeth am ei gilydd. Eto, gall hon fod yn strategaeth baratoi sy'n caniatáu i oedolion sy'n cam-drin gyrraedd plant a phobl ifanc.

- **Cyswllt heb Oruchwyliaeth**

Gall plant a phobl ifanc gysylltu ag eraill, gall eraill gysylltu â nhw, a gallant gyrchu'r rhyngrwyd trwy amrywiaeth o ffyrdd megis ffonau symudol, consolau gêmau a chyfrifiaduron tabled. Gallant wneud hynny hefyd trwy ddefnyddio cyfarpar pobl eraill, ffrindiau er enghraifft, er bod mesurau diogelu wedi cael eu gosod ar eu cyfarpar eu hunain gan eu rhieni. Yn aml, felly, ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, all fod gan rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am ddefnydd plentyn a pherson ifanc o TGCh, â phwy maen nhw'n cysylltu, pa berthnasoedd sydd ganddyn nhw, ac a ydyn nhw'n ymddwyn yn ddiogel.

Yn achos plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac y mae eu cysylltiad â'u rhieni biolegol neu eraill yn cael ei oruchwylio er mwyn eu hamddiffyn, gall hynny gael ei danseilio gan gyfathrebu 'cyfrinachol' trwy fynediad i safleoedd TGCh a rhwydweithio cymdeithasol. Risgiau a nodwyd yn sgîl cyswllt heb oruchwyliaeth yw niwed corfforol a rhywiol trwy gyfarfod, datgelu lleoliad, amharu ar leoliadau a niwed emosiynol yn sgîl cyswllt o'r fath.

Gall cyswllt heb oruchwyliaeth atal gofalwyr a rhieni, gweithwyr proffesiynol ac eraill rhag bod yn ymwybodol o'r risg neu gamdriniaeth sydd eisoes yn digwydd, ac yna rhag ymyrryd ac adrodd am bryderon.

- **Cymunedau ar-lein**

Mae cyfathrebu trwy TGCh yn cynyddu'r cyfleoedd a'r dulliau i'r rhai sydd am gam-drin plant a phobl ifanc. Y rheswm am hynny yw bod modd lleoli, creu cysylltiad, a meithrin perthynas â phlant, pobl ifanc a/neu eu rhieni a'u gofalwyr trwy amrywiol gyfryngau cymdeithasol neu safleoedd diddordeb cyffredin. Yn yr un modd mae'n galluogi pobl sydd â diddordeb rhywiol mewn plant i gyfathrebu â'i gilydd.

Amlygir y risg hon yn yr Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio ar Blant yn Rhywiol yn Rotherham (2014);

'A number of the recent case files we read demonstrated that by unguarded use of text and video messaging and social networking sites, children had unwittingly placed themselves in a position where they could be targeted, sometimes in a matter of days or hours, by sexual predators from all over the world.' (t.44).

Trwy'r cyfryw rwydweithiau cyswllt gall ymddygiad rhywiol sy'n cam-drin gael ei normaleiddio a'i annog. Un canlyniad i hynny yw bod modd paratoi oedolion agored i niwed, sydd â mynediad at blant, a thuedd i ymddwyn yn gamdriniol, i gam-drin plant yn rhywiol a rhannu delweddau ag eraill.

- **Hwylustod rhannu gwybodaeth**

Mae'n hawdd rhannu delweddau, testun a sain ar ôl eu hanfon neu eu postio ar-lein, gan olygu bod yr anfonwr yn colli rheolaeth ar y defnydd ohonynt, sut maen nhw'n cael eu rhannu, ym mha ffurf a chyda phwy. Mae hon yn broblem arbennig yn achos lluniau mae plant a phobl ifanc eu hunain wedi'u cymryd.

(Dysgu o adolygiadau achos lle roedd cam-drin ar-lein yn ffactor allweddol – briffiad yr NSPCC (cymerwyd o adolygiad thematig Llyfrgell yr NSPCC 21/7/14)

- **Eithafiaeth Dreisgar**

Mae TGCh yn cael ei defnyddio gan grwpiau neu unigolion sy'n rhychwantu sbectrwm o safbwyntiau, ac sy'n ymroddedig i eithafiaeth dreisgar, er mwyn recriwtio plant a phobl ifanc i gyfranogi yn eu gweithgareddau neu eu cefnogi. Ymhlith y dulliau a ddefnyddir mae fideos, Podlediadau, a gwefannau. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i dargedu pobl ifanc agored i niwed er mwyn eu recriwtio i achosion eithafol treisgar wedi cael ei nodi'n glir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nododd Adolygiad 'Prevent' (2011) fod y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol wedi trawsnewid i ba raddau y gall cyrff terfysgol a'r rhai sy'n eu cefnogi radicaleiddio pobl yn y wlad hon.

Diffiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron o eithafiaeth dreisgar yw "Arddangos ymddygiad annerbyniol trwy ddefnyddio unrhyw fodd neu gyfrwng i fynegi barn sy'n:

- Annog, yn cyfiawnhau neu'n gogoneddu trais derfysgol er lledaenu credoau penodol;
- Ceisio cymell eraill i gyflawni gweithredoedd terfysgol;
- Annog gweithgaredd troseddol arall difrifol neu'n ceisio cymell eraill i gyflawni gweithredoedd troseddol difrifol;
- Meithrin casineb a allai arwain at drais rhwng cymunedau yn y Deyrnas Unedig."

Unwaith ceir atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu adroddiad i'r Heddlu, rhaid i'r broses amddiffyn plant gynnwys atgyfeiriad i un man cyswllt yr ardal (SPOC) ar gyfer Rhaglen 'Prevent' neu Raglen 'Channel'. Yr Heddlu sydd â gofal am SPOC Prevent a Channel.

5.5.4 Prif Droseddau

Mae nifer o droseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant trwy TGCh sy'n syrthio i'r categorïau 'Cyswllt', 'Cynnwys' ac 'Ymddygiad'. Oherwydd bod y troseddau hyn yn niferus ac yn gallu newid dros amser, cynghorir gweithwyr proffesiynol i gysylltu â'r Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i gael gwybodaeth yn y maes hwn. I gael arweiniad ynghylch categoreiddio delweddau o gam-drin rhywiol, gweler y ddogfen ganlynol: Sentencing Council Sexual Offences Definitive Guideline

5.5.5 Rheoli Achosion Amddiffyn Plant

Efallai bydd rhai gweithwyr proffesiynol yn pryderu, oherwydd nad ydynt yn gyfarwydd â byd TGCh, fod rheolaeth amddiffyn plant yn wahanol iawn yno, ond nid yw hynny'n wir. Wrth reoli achosion amddiffyn plant sy'n ymwneud â TGCh, mae angen dilyn yr un broses a gweithdrefnau â phan fydd pryderon ynghylch amddiffyn plant (gweler **Rhan 3** o brif **Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 'Y Broses Amddiffyn Plant'**). Felly dylid adrodd/cyfeirio pryderon ynghylch plant sydd mewn perygl neu sy'n profi cam-drin trwy TGCh i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ar unwaith, a'u rheoli trwy'r broses amddiffyn plant (gweler **Rhan 3** o brif **Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 'Y Broses Amddiffyn Plant'**).

Dylai Gweithwyr Proffesiynol ystyried hefyd bod angen iddynt fod yn ymwybodol mai anaml y mae achosion o gam-drin ar-lein wedi'u cyfyngu i un dioddefydd a chyflawnydd. Felly dylid ystyried achosion o'r fath fel rhai a allai fod yn gymhleth, a'u rheoli ar y sail y gallai fod dioddefwyr a chamdrinwyr eraill. Ar ben hynny, pan ddeuir o hyd i achos o baratoi ar-lein, yn ogystal ag adrodd a atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu yn y lle cyntaf, gellir cyflwyno adroddiadau pellach i'r **Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP)** a/neu **Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF)** neu'r safle ar y rhyngrwyd lle digwyddodd y paratoi. Ni ddylid gwneud hynny ond wedi i'r pryder gael ei atgyfeirio/adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu.

5.5.6 Cadw Tystiolaeth

Gall tystiolaeth fod yn hanfodol i ganfod plant eraill sydd wedi cael eu cam-drin a chyflawnwyr eraill, a'r Heddlu yw'r brif asiantaeth ar gyfer casglu tystiolaeth fforensig o'r fath. Dylai gweithwyr proffesiynol nodi bod tystiolaeth o gam-drin trwy TGCh yn aml, ond nid bob amser, i'w chanfod yn y cyfarpar ei hun, a bod modd i archwilwyr fforensig sydd wedi'u hyfforddi adalw delweddau a thestun sydd wedi'u dileu. Mae hefyd yn bwysig nodi, oherwydd dyluniad rhai dyfeisiau a meddalwedd, na fydd modd cyrchu tystiolaeth o reidrwydd heb gydweithrediad y dioddefydd i gynhyrchu a sicrhau tystiolaeth, yn enwedig yn achos troseddu 'oddi ar-lein'.

Canllawiau ACPO yn y maes hwn yw:-
"Y dylai swyddogion ofalu eu bod yn atafaelu unrhyw ddyfais yn unol ag egwyddorion Canllaw Arfer Da ACPO ar Gyfrifiadura Fforensig, sy'n datgan na ddylai unrhyw ddata a gedwir ar gyfrifiadur adeg ei atafaelu gael ei newid neu ei gyfaddawdu mewn unrhyw

fodd. Mewn geiriau syml, ni ddylai dim gael ei droi ymlaen, ei wylio, ei ddileu na'i fanipwleiddio mewn unrhyw fodd cyn i'r heddlu ei archwilio o safbwynt fforensig."

Ac ar ben hynny;
'Na ddylai dyfeisiau a chyfryngau digidol gael eu hatafaelu dim ond oherwydd eu bod yno. Dylai'r person sy'n gyfrifol fod â sail rhesymol dros fynd â'r eiddo, a dylai fod rhesymau cyfiawnadwy dros wneud hynny……'

(Canllaw Arfer Da ACPO ar gyfer Tystiolaeth Ddigidol, fersiwn 5 Hydref 2011)

Mae adalw data fforensig o offer TGCh yn weithgaredd arbenigol, ac felly rhaid ei adael i'r Heddlu bob amser, a heblaw sicrhau pa dystiolaeth 'galed' ac electronig bynnag sydd ym meddiant y gweithwyr proffesiynol, ni ddylid gwneud unrhyw ymgais i gael mynediad i'r dystiolaeth.

Er mwyn sicrhau integriti'r 'gadwyn' o dystiolaeth fforensig i'r Heddlu, cynghorir gweithwyr proffesiynol i roi gwybod i CEOP a/neu IWF am bryderon dim ond **wedi iddynt yn gyntaf adrodd** i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, a all gyfeirio'r mater at yr asiantaethau hynny eu hunain.

5.5.7 Adroddiadau Arbenigol (CEOP) ac Adnoddau

Dylid nodi bod rhaid atgyfeirio ac adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu yn y lle cyntaf ym mhob achos. Adnodd arbenigol pwysig i weithwyr proffesiynol yw'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP – gweler yr hyperddolen uchod), sef canolfan reoli i'r Deyrnas Unedig sy'n gorfodi'r gyfraith ym maes amddiffyn plant, ac sy'n rhan o'r Asiantaeth Drosedd Genedlaethol (NCA). Yn ogystal â'i gweithgareddau i orfodi'r gyfraith, mae CEOP hefyd yn darparu cyngor a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth ac adroddiadau i'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gynwys plant a phobl ifanc. Gellir cyflwyno adroddiad hefyd i Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF), sef corff annibynnol hunan-reoledig sy'n gweithio;

'mewn partneriaeth â'r diwydiant ar-lein, gorfodi'r gyfraith, y llywodraeth, y sector addysg, elusennau, partneriaid rhyngwladol a'r cyhoedd i leiafu argaeledd cynnwys a allai fod yn droseddol lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol sy'n cael ei letya unrhyw le yn y byd, cynnwys troseddol o anweddus i oedolion sy'n cael ei letya yn y Deyrnas Unedig a delweddau anffotograffig o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu lletya yn y Deyrnas Unedig.'

Cylch gorchwyl yr IWF yw 'lleiafu argaeledd cynnwys a allai fod yn droseddol ar y rhyngrwyd, yn benodol:

- •Cynnwys lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol sy'n cael ei letya unrhyw le yn y byd.
- •Cynnwys troseddol o anweddus i oedolion sy'n cael ei letya yn y Deyrnas Unedig.
- •Delweddau anffotograffig o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu lletya yn y Deyrnas Unedig'

(IWF 18/09/2014)

Dyma rai ffynonellau eraill o wybodaeth i dywys gweithwyr proffesiynol ym maes diogelwch ac ymddygiad yng nghyd-destun TGCh i blant, pobl ifanc, gofalwyr a rhieni a gweithwyr proffesiynol:-

Thinkuknow – Gwybodaeth i grwpiau oed 5-7, 8-10, 11-13, 14+, Rhieni a Gofalwyr, Hyfforddiant i Athrawon https://www.thinkuknow.co.uk/

Child Net – Canllawiau ac awgrymiadau diogelwch ar y Rhyngrwyd i rieni, gofalwyr, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol http://www.childnet.com/

Child Net – Pynciau Llosg sy'n ymwneud â Diogelwch ar y Rhyngrwyd http://www.childnet.com/teachers-and-professionals/for-working-with-young-people/hot-topics

Newsround – Adroddiad arbennig ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd http://www.bbc.co.uk/newsround/13908828

Internet matters – cyngor arbenigol, canllawiau ac awgrymiadau defnyddiol ynghylch cadw'n ddiogel ar-lein http://www.internetmatters.org/

Kidsmart – safle rhyngweithiol sy'n darparu llu o syniadau ynghylch diogelwch ar y rhyngrwyd http://www.kidsmart.org.uk/

NSPCC – Cyngor i rieni ynghylch cadw eich plentyn yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a chwarae gêmau ar-lein http://www.nspcc.org.uk/help-and-advice/for-parents/online-safety/online-safety_wdh99554.html

CEOP (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein) – canolfan gyngor, help ac adrodd http://ceop.police.uk/safety-centre/

Childline – Gwybodaeth am ddelio gyda bwlio Ar-lein http://www.childline.org.uk/Explore/Bullying/Pages/online-bullying.aspx

Wise Kids – Awgrymiadau Diogelwch Ar-lein i Blant a Phobl Ifanc http://wisekids.org.uk/wk/

Get Safeonline – cyngor arbenigol am ddim ar ddiogelu plant https://www.getsafeonline.org/safeguarding-children/

Sylwer bod testun diogelwch ar y rhyngrwyd a defnyddio technoleg yn ddiogel yn cwmpasu ystod eang iawn o bynciau, gan gynnwys llawer o wefannau a thudalennau gwe ar y pwnc na fyddant o reidrwydd bob amser yn oed-briodol.

5.5.7 Geirfa

Er bod rhai termau fel ‘secstio’ a ‘seiberfwlio’ wedi cael eu defnyddio yn y weithdrefn hon, mae’r byd TGCh wrth natur yn datblygu ac yn ddeinamig, felly gall y derminoleg ddyddio’n gymharol gyflym. Cyfeirir gweithwyr proffesiynol, felly, at yr adnoddau uchod i weld yr eirfa gyfredol.